**<u>Cofnodion cyfarfod rhif 46 y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddyfrffyrdd</u>**

Ystafell Bwyllgora 5, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA
Dydd Mawrth 26 Medi 2017
18.00

**Aelodau Cynulliad yn bresennol:**

Nick Ramsay AC (Ceidwadwyr Cymru, Mynwy), Cadeirydd

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Andrew Stumpf | Glandŵr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru – Ysgrifenyddiaeth |
| Emily Lewis | Glandŵr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru – Ysgrifenyddiaeth |
| Anthony Rees MBE | Pysgota Cymru a Physgotwyr Merthyr |
| Gareth Williams | Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu |
| David Mee | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Jeremy Frost | Llywodraeth Cymru |
| Steve Rayner | Canŵ Cymru |
| Paul Thomas | Prifysgol Caerdydd a Bwrdd Glandŵr Cymru |
| Nigel Annett | Bwrdd Glandŵr Cymru |
| Rachel Evans | Cynghrair Cefn Gwlad a Sefydliad Cynghrair Cefn Gwlad |
| Dr Ruth Hall | Bwrdd Glandŵr Cymru |
| Jonathan Taylor | Dd/b |

*****

Dechreuodd y cyfarfod am 18.40

**Eitem 1: Pysgota pluen a gwella o ganser y fron – Rachel Evans, Cyfarwyddwr Cynghrair Cefn Gwlad Cymru a Sefydliad y Cynghrair Cefn Gwlad**

Croesawodd Nick Ramsay y rhai a oedd yn bresennol a chyflwynodd Rachel Evans, Cyfarwyddwr Cynghrair Cefn Gwlad Cymru a Sefydliad y Cynghrair Cefn Gwlad. Diolchodd Rachel i Nick ac amlinellodd wreiddiau'r elusen 'Casting for Recovery', a ddechreuwyd yn America dros ddeng mlynedd yn ôl gan ddau gyfaill: llawfeddyg gofal y fron a physgotwr pluen.

Daeth 'Casting for Recovery' i'r DU am y tro cyntaf yn 2007. Sue Hunter a Sue Shaw oedd yn rhedeg yr elusen yn y DU, gan droi at y Cynghrair Cefn Gwlad am nawdd – mae'r elusen bellach o dan faner Sefydliad y Cynghrair Cefn Gwlad. Maent wedi cynnal 41 o ymweliadau ag encilfannau, a'r bwriad yw cynnal chwe ymweliad flwyddyn nesaf, gan gynnwys un yng Nghymru.

Mae mwy na 50,000 o fenywod yn y DU yn cael diagnosis o ganser y fron bob blwyddyn – un diagnosis bob deng munud. Mae 'Casting for Recovery' yn helpu menywod i symud ymlaen ar ôl sioc y diagnosis ac i wynebu'r driniaeth. Esboniodd Rachel fod y symudiadau esmwyth sy'n gysylltiedig â chastio yn debyg i'r ymarferion corfforol a argymhellir ar ôl

llawdriniaeth ac yn helpu i ailadeiladu meinweoedd a niweidiwyd yn ystod llawdriniaeth, gan nodi bod y proffesiwn meddygol wedi mynegi brwdfrydedd am y manteision hyn.

Mae'r penwythnosau yn cynnig heddwch, tawelwch, ac 'amser i feddwl', gan iachau'r corff a'r meddwl. Gall cyfranogwyr ddod i adnabod menywod eraill sydd wedi mynd drwy brofiadau tebyg, sy'n aml yn gallu gwneud i'r claf deimlo'n unig. Disgrifiodd un fenyw y profiad fel "cyfle i gael fy sbarc yn ôl", tra bod menyw arall yn sôn am "therapi hudolus". Fel arfer, dim ond cyfranogwyr fydd yn aros yn y gwesty, gan helpu pawb i ymlacio ac weithiau dod i arfer â bod allan yn yr awyr agored eto. Rhaid i'r menywod gael caniatâd eu meddyg teulu cyn mynd, ac mae cefnogaeth feddygol ar gael yn ystod y penwythnos.

Mae'r diwrnod olaf yn cynnwys bore o bysgota pluen tywysedig, gyda'r opsiwn o ddal a chadw'r pysgodyn neu ddal a rhyddhau. Gellir ffiledu'r pysgodyn a mynd â'r ffiledau adref. Fel arall, gellir mynd â'r pysgodyn cyfan adref.

Mae 'Casting for Recovery' yn elusen annibynnol, gyda Sefydliad y Cynghrair Cefn Gwlad yn gyfrifol am godi arian ar ei chyfer. Mae pob ymweliad ag encilfa yn para deuddydd a hanner a bydd hyd at 14 o gyfranogwyr ar bob ymweliad. Telir am bopeth, gan gynnwys bwyd, llety, offer a chefnogaeth feddygol. Mae ymweliad o'r fath yn costio tua £500 y pen.

Cynhelir pob digwyddiad gan wirfoddolwyr, gan gynnwys staff meddygol o'r Royal Marsden yn Llundain, cynghorwyr proffesiynol, a Keith, y gyrrwr fan dibynadwy. Mae cwmni Orvis yn noddi peth o'r offer.

Gall cyflawni nod ar ôl cyfnod hir o salwch wneud gwahaniaeth gwirioneddol, a gorffennodd Rachel ei chyflwyniad gydag ymateb a gafodd gan ŵr un cyfranogwr, a oedd wedi gweld effaith hynod bositif ar ei wraig ar ôl iddi ymweld ag encilfa yn dilyn cyfnod hir o salwch.

**Trafodaeth**

**C:** Gofynnwyd a oes rhestr aros ar gyfer y rhaglen.

**A:** Mae rhestr aros ar gyfer y rhaglen, ac maent bob amser yn ceisio ei ehangu a datblygu prosiectau newydd. Soniodd Rachel am raglen newydd, Castaway, ar gyfer oedolion ifanc sydd â chanser, ac mae elusen ynghylch y prostad hefyd wedi cysylltu â'r sefydliad yn ddiweddar.

Nod Sefydliad y Cynghrair Cefn Gwlad yw cysylltu pobl â chefn gwlad. Mae angen i brosiectau fel hyn ddatblygu'n gywir ac yn ystyrlon.

Nododd Rachel sut y gall y rhaglen wella bywyd yn y cartref, gyda chyfranogwyr yn mynd ati i bysgota gyda'u partneriaid neu eu teuluoedd ar ôl dychwelyd o encilfa.

**C:** Gofynnwyd am ragnodi gwyrdd, ac a oes gan y prosiect hwn y capasiti i ateb y galw.

**A:** Mae'r sefydliad yn cael llawer o geisiadau ar gyfer pob un o'i raglenni, ac mae'n anodd ateb y galw.

Nodwyd bod y manteision cadarnhaol yn wych a bod llawer o botensial ar gyfer mentrau o'r fath, gyda manteision gwych i ysgolion hefyd.

**Eitem 2: Pysgota bras a'r gymuned – John Ellis, Rheolwr Cenedlaethol Pysgodfeydd a Physgota, Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd**

Roedd 2016 yn flwyddyn wych ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. Pwy enillodd Bencampwriaeth Pysgota Bras Ewrop 2016? Cymru! Dechreuodd John drwy esbonio sut roedd y tîm, 'Sam Warburtons of the angling community', wedi dysgu sut i bysgota ar afonydd naturiol neu gamlesi. Oherwydd eu bod yn talu eu ffordd eu hunain, nid oeddent yn gallu mynd ymlaen i gystadlu ym Mhencampwriaethau'r Byd.

Aeth John ymlaen i drafod sut y gall unigolion elwa o bysgota. Amlinellodd pam fod pysgota yn weithgaredd cadarnhaol o ran iechyd a llesiant, gan gynnwys:

- dysgu am yr amgylchedd naturiol a sut i'w werthfawrogi;
- dysgu sut i rannu a chydweithio â pobl eraill;
- gwella hunan-barch;
- datblygu sgiliau, cydlyniant ac amseru;
- cymryd rhan mewn gweithgaredd cymdeithasol, yn enwedig i bobl ifanc.

Mae sefydlu clybiau sy'n gofalu am eu hardaloedd yn werthfawr iawn i'r gymuned leol. Soniodd John am ardal lle'r oedd pysgota'n helpu i fynd i'r afael â blynyddoedd o droseddu, boed yn droseddau mân neu'n achosion difrifol o ddwyn pysgod. Mae pysgotwyr yn rhoi gwybod i Gyfoeth Naturiol Cymru am lawer o droseddau.

Aeth John ymlaen i drafod demograffeg pysgota bras a rhwystrau rhag cymryd rhan. Dechreuodd 50 y cant o bysgotwyr cyn iddynt droi'n ddeg oed. Mae'r demograffeg hŷn yn parhau i dyfu.

Mae poblogrwydd pysgodfeydd masnachol, sydd â mwy o stoc, yn parhau i dyfu, sydd o bosibl yn beth negyddol, yn enwedig ar gyfer pysgotwyr iau, oherwydd nid ydynt yn dysgu'r sgiliau angenrheidiol i ddal pysgod gwyllt mewn pysgodfeydd naturiol.

Eglurodd John rôl yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd o ran pysgota, gan gynnwys y digwyddiadau 'Let's Fish' a ddechreuodd yn 2016. Mae'r rôl hon yn cynnwys cynnig cyfleoedd i'r cyhoedd roi tro ar bysgota am ddim gyda hyfforddwyr Lefel 2 ar eu camlesi lleol, gan gynnwys sesiwn ar Gamlas Maldwyn yn y Trallwng. Cynhaliwyd dros 80 o'r sesiynau hyn yn ystod cyfnod o ddwy flynedd, ac mae mwy na 1,000 o bobl wedi cymryd rhan bob blwyddyn ledled Cymru a Lloegr.

Hefyd, cynhyrchwyd fideos yn dangos sut i bysgota a chafodd mwy o hyfforddwyr eu hyfforddi. Mae dau o'r hyfforddwyr hyn wedi'u lleoli ar y ffin yng ngogledd Cymru. Mae'r mentrau hyn yn cael eu datblygu gyda chyllid gan yr Ymddiriedolaeth Pysgota. Nododd John fod yr ymddiriedolaeth yn bwriadu gweithio mewn partneriaeth â rhagor o glybiau pysgota yn y dyfodol, gyda Goytre (Sir Fynwy a Brycheiniog) a Trefor (Llangollen) yn lleoliadau posibl ar gyfer sesiynau hyfforddi.

**Trafodaeth**

Nodwyd bod cymuned fawr o ddwyrain Ewrop yn y Trallwng a bod gwaith yn cael ei wneud i ymgysylltu â'r gymuned hon drwy bysgota.

Soniwyd bod yr ymdrechion i warchod a hyrwyddo pysgota fel gweithgaredd yn wan iawn ar hyn o bryd. Nododd cyfranogwr o Ymddiriedolaeth Pysgota Merthyr fod yr ymddiriedolaeth mewn gwirionedd yn gwneud llawer o ran ymgysylltu a chynnal digwyddiadau.

**C:** Dywedwyd bod pysgota wedi bod yn gysylltiedig â dynion yn draddodiadol, a gofynnwyd i John sut y gellir ymdrin â'r canfyddiad hwn o ran ymgysylltu â menywod, ac o ran ymgysylltu â phobl ifanc yn benodol, gan awgrymu y dylid canolbwyntio ar y mater hwn.

**A:** Nododd John fod yna dimau pysgota llwyddiannus iawn i fenywod, a bod mwy o famau na thadau, a'r un nifer o ferched ag o fechgyn, wedi cadw lle mewn digwyddiadau 'Let's Fish', gan awgrymu y gallai'r agwedd hon ar ymgysylltu fod yn gwella.

Gan gyfeirio at adroddiad yr Athro Donaldson ar lythrennedd corfforol, nodwyd bod pysgota i ysgolion yn bodloni llawer o ofynion. Soniodd un cyfranogwr am ei waith mewn ysgol yng Nghaerdydd sy'n cael effaith gadarnhaol. Mae athrawon yn hoffi'r ffaith bod eu myfyrwyr yn mynd allan i fwynhau'r awyr agored, oherwydd ymddengys bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad a chanlyniadau'r myfyrwyr.

**C:** A yw'n rhad dechrau pysgota?

**A:** Gall gostio £30 ar y dechrau; gall fod mor rhad neu ddrud ag y dymunwch. Mae ymaelodi â'r Gymdeithas Bysgota neu glybiau lleol yn costio £20 neu'n llai y flwyddyn i bobl ifanc.

**C:** A yw pysgota yn fuddiol i bysgod?

**A:** Mae creu amgylcheddau dŵr y gofelir amdanynt yn fuddiol iawn i'r amgylchedd ac i'r gymuned leol. Cafodd blychau nythu eu gosod a choed eu plannu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan arwain at gynnydd mewn niferoedd gwyachod a chwtieir. Soniodd Andrew Stumpf am brofiadau yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd o osod rhannau o gamlesi ar brydles i gymunedau sydd wedyn yn gyfrifol am ofalu am eu hamgylchedd lleol.

Nodwyd bod angen i bobl mewn cymuned fod yn gallu pysgota cyn y gall pobl wir fuddsoddi yn y math hwn o fenter; mae'n bwysig meithrin dealltwriaeth o'r gweithgaredd dros amser.

### Eitem 3: Adborth a thrafodaeth

**C: Sut arall y gellir sicrhau bod cynulleidfa ehangach o bobl ddylanwadol a phobl sy'n gwneud penderfyniadau yn ymwybodol o fuddion pysgota?**

Mae timau wedi'u hariannu'n wael, felly nid ydynt yn gallu hyrwyddo'r hyn y maent yn ei wneud. Mae cymaint o botensial ond nid oes llawer o gyllid. Gellir llwyddo drwy gydweithio. Mae cymaint yn fwy y gellir ei wneud i hyrwyddo'r buddion.

Nid yw pysgota yn un o gampau'r Gemau Olympaidd felly nid yw wedi'i ariannu'n dda. Mae cyllid gan Chwaraeon Cymru yn gostwng bob blwyddyn.

Nodwyd nad oes unrhyw gyhoeddiadau print ar bysgota yng Nghymru. Nid yw'r pwnc ond yn cael sylw manwl ar-lein, a gellir gwneud mwy o waith datblygu a hyrwyddo ar y platfform hwn; er enghraifft, drwy sefydlu tudalen ganolog ar gyfer pob clwb yng Nghymru ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae’n bwysig sicrhau bod ecosystemau yn barod ar gyfer poblogrwydd cynyddol. Gall dyfrffyrdd gymryd hyd at ddeg mlynedd i’w hadfer ar ôl iddynt gael eu llygru. Nid yw llygredd yn effeithio ar gamlesi i’r un graddau. Y bygythiad mwyaf i gamlesi yw rhywogaethau estron goresgynnol fel y Sandr ysglyfaethus yng nghanolbarth Lloegr a dwyrain Anglia. Yn ffodus, mae’n annhebygol bod y pysgodyn hwn wedi dod i Gymru eto.

Mae nifer y merched sy’n rhoi gorau i bysgota yn uwch ar ôl iddynt droi’n wyth oed. Erbyn iddynt gyrraedd ysgol uwchradd, mae bron pob merch wedi rhoi’r gorau iddi. Mae nifer uchel y bobl ifanc yn eu harddegau, yn enwedig merched, sy’n rhoi gorau iddi hefyd yn gyffredin mewn canŵio hefyd. Mae pobl yn dod yn ôl i bysgota neu ganŵio fel rhieni neu deuluoedd.

Tri phrif rwystr yw: cael rhywle i fynd iddo, cael rhywun i fynd gyda nhw, a chael offer.

## Eitem 4: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Andrew Stumpf

Rhoddodd Andrew Stumpf y wybodaeth ddiweddaraf i’r grŵp am ddigwyddiadau o ddiddordeb sydd ar y gorwel:

| | |
|---|---|
| **8 Tachwedd** | **Cyfarfod Cyhoeddus Blynyddol Glandŵr Cymru,** wedi’i noddi gan Kirsty Williams AC, 17.30-20.00, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd. Cofrestrwch drwy’r dudalen Eventbrite (http://bit.ly/2xb4Gf9) neu anfonwch e-bost at emily.lewis@canalrivertrust.org.uk |
| **9 Tachwedd** | Seminar ar Fframwaith Mesur Canlyniadau’r Ymddiriedolaeth i<br>– drafod ein fframwaith mesur canlyniadau sy’n gysylltiedig â’r diffiniad ehangaf o lesiant<br>– roi trosolwg o’n gweithgareddau cyfredol sy’n sylfaen ar gyfer mesur newid<br>– rannu’r cynnydd a wnaed a’r heriau a oresgynnwyd |
| **2018** | |
| **23 Ionawr** | **Grŵp Trawsbleidiol ar Ddyfrffyrdd** thema i’w gadarnhau, 18.00 Tŷ Hywel, Bae Caerdydd |

## Eitem 5: Unrhyw fater arall

Ni chofnodwyd unrhyw faterion eraill.